# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 1

TERMAU ALLWEDDOL, Y COD A CHYFRANOGIAD

*Termau allweddol*

### 2 Anghenion dysgu ychwanegol

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—

(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu

(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)*

(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

(5) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 2 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

**I3** A. 2 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))

## 3 Darpariaeth ddysgu ychwanegol

(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—

(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,

(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu

(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.

(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.

(4) Caiff rheoliadau ddiwygio'r adran hon i roi cyfeiriadau at oedran gwahanol yn lle'r cyfeiriadau at dair oed.

(5) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I5** A. 3 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

**I6** A. 3 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.